



Pivotal Education
Training adults to inspire

Pivotal Education: Arbenigwyr Ymddygiad

Ymgynghoriaeth hyfforddiant addysg yw Pivotal Education Ltd, sy'n gweithio ledled y DU ac yn rhyngwladol. Rydym ar flaen y gad o ran Rheoli Ymddygiad yn y DU. Wedi'i sefydlu yn 2001, mae Pivotal Education wedi ymrwymo bob amser i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth heb eu hail i athrawon, arweinyddion ysgol ac ymarferwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Ein nod yw dilyn ein pregeth ein hunain, hyfforddi oedolion yr un mor fedrus ag y mae'r athrawon gorau'n dysgu myfyrwyr. O sefydliadau llwyddiannus iawn i'r rheiny mewn sefyllfaoedd heriol, o'r blynyddoedd cynnar i ddysgwyr ôl-16, mae Pivotal Training yn ysgogi, cymell ac yn creu newid dwfn yn niwylliant yr ysgol.

Mae Ymddygiad a Diogelu yn golygu calonnau, meddyliau a sgiliau. Ni allwch ddysgu sgiliau a strategaethau yn unig heb fynd i'r afael ag agweddau ac egwyddorion gwaelodol oedolion a phlant. Mae cael dull cyson i bob oedolyn yn gofyn am ystod o opsiynau cefnogi a hyfforddi, wedi'u teilwra i fod yn addas i sefyllfaoedd a lleoliadau penodol. Mae hyfforddiant yn mynd ochr yn ochr ag ymgynghoriaeth ar bolisi a systemau Diogelu gyda chyfleoedd i hyfforddi'n unigol a rhoi cefnogaeth i'r rhai sydd fwyaf ei angen.

Mae Pivotal yn cyflwyno hyfforddiant ymarferol, trwyadl a chynaliadwy drwy fodelau hyfforddi hyblyg. Ein dull yw dod i mewn at dimau a gweithio gyda nhw a'r hyn sydd ganddynt, eu hannog i wneud gwelliannau o'r tu mewn; rydym yn gweithio mewn

partneriaeth wirioneddol. Mae'r hyn a rown yn ei le mewn sefydliadau a chymunedau yn werthfawr iawn.

Mae hyfforddiant Pivotal yn ysbrydoledig ac ymarferol. Rydym yn ysgogi oedolion i wynebu eu hymddygiad eu hunain, datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ymddygiad plant a'u plethu yn ymagwedd gyson. Rydym yn dangos ffyrdd ymarferol i greu a chynnal amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel sy'n gweithio i bob plentyn a phob oedolyn.

Athroniaeth ar gyfer Ymddygiad: 'Mae diwylliant yn bwyta strategaeth i frecwast'.

Agwedd Pivotal mwen 5 cam:

1. Cysondeb pur
2. Gwydnwch emosiynol
3. Cydnabyddiaeth nid gwobr
4. Arferion a defodau ymddygiadol a ddysgir
5. Canlyniadau tawel graddedig ac ymarfer adferol

Gwers Pivotal i athrawon yw, po dynnaf y cysondeb, y mwyaf sydyn y gweddnewid. Daw cysondeb pur o benderfyniad diysgog gan bob oedolyn i fyw yn ôl eu gwerthoedd cytunedig bob dydd. Daw hefyd drwy gytundebau syml, 3 rheol, polisi byrrach a gweithdrefnau cliriach. Mae eu gallu i aros yn emosiynol wydn yn wyneb ymddygiad gwael yn un o gonglfeini Athroniaeth Pivotal. Rydym yn hyfforddi athrawon i ddatrys problemau, nid i brosesu mwncïod. Edrych ar y sefyllfa gyda llygaid newydd, defnyddio technegau a dulliau sy'n bodloni anghenion y plentyn, nid eitem yn y polisi.

Mae'r gwerthoedd a'r credoau y mae oedolion yn eu dal yn effeithio ar bob sgwrs y maent yn eu cael gyda phlant am eu hymddygiad. Mae'r ffordd y mae oedolion yn dehongli ymddygiad yn penderfynu ar eu hymateb iddo. Rhaid i werthoedd a diwylliant ysgol atseinio drwy bob ystafell ddosbarth a phob cartref. Mae'n rhaid i bob oedolyn eu byw a'u modelu. Mae gwerthoedd cyffredin mewn ymddygiad yn

golygu y gallwch symleiddio eich strategaeth a'r negeseuon a anfonwch i'r plant. Gyda'r diwylliant yn iawn, gallwch ddrilio i lawr i gytundebau ymarferol a grymuso rhieni i fabwysiadu'r un ymagwedd yn y cartref. Mae ymagwedd Pivotal mewn ysgolion yn herio'r ymarfer sy'n bodoli'n barod. Rydym yn gweithio i symud y sylw o'r 5% o blant sy'n achosi'r drafferth fwyaf i'r 95% o blant sy'n ymddwyn yn berffaith bob dydd. Rydym yn cael gwared â systemau gwobrwyo dryslyd sy'n rhannu plant ac yn golygu fod y rhai sy'n ymddwyn waethaf yn cael y gwobrau mwyaf. Mae Pivotal yn hyfforddi athrawon i gydnabod ymddygiad sydd 'y tu hwnt' i ddisgwyliadau, a gwneud i blant deimlo'n werthfawr ac yn bwysig. Y wobr fwyaf yw teimlo'n falch a gwybod fod yr oedolion o'ch cwrdd yn teimlo felly hefyd.

Caiff ymddygiad ardderchog ei fodelu ond gellir ei ddysgu hefyd. Mae Pivotal yn gwybod y gellir dysgu gwell ymddygiad a gwell arferion i blant.

Pan mae ymddygiad athrawon yn newid, mae popeth yn newid.

Hyfforddiant a Chefnogaeth Pivotal

HMS:

Mae HMS Pivotal yn cael ei deilwra bob amser i bob ysgol neu grŵp o staff rydym yn gweithio gyda nhw. Rydym yn cynnig hyfforddiant i grwpiau staff cyfan a hefyd i sectorau/swyddogaethau o fewn y corff staffio. Er enghraifft, gallwn ddarparu sesiynau a luniwyd ar gyfer goruchwylwyr amser cinio, cynorthwylwyr dysgu, athrawon llanw, rheolwyr canol.... ayb. Rydym yn darparu hyfforddiant i glystyrau a phartneriaethau o ysgolion yn rheolaidd lle daw'r staff o wahanol ysgolion, o bosibl cyfnodau gwahanol hyd yn oed (cynradd/uwchradd) ac ag amryw o swyddogaethau gwahanol.

Rydym yn cynllunio a strwythuro amserlen sesiynau HMS ar ddechrau pob prosiect a wnawn. Weithiau nid yw'n amlwg ar ddechrau prosiect pryd bydd angen

hyfforddiant ychwanegol i bocedi o staff, felly mae angen i ni fod yn hyblyg ac yn gallu ymateb i anghenion datblygol y staff rydym yn gweithio gyda nhw. Gall y cynnwys fod yn unrhyw agwedd o hyfforddiant rheoli ymddygiad yn cynnwys ymddygiad eithafol, AAA, cyfiawnder adferol ayb. Caiff y diwrnodau hyfforddi i gyd eu gwerthuso ar-lein.

Rydym wedi ennill nifer o wobrau am ein dull, rydym yn gwbl gyson ac mae gennym hanes o lwyddo yn y sefyllfaoedd mwyaf heriol a sensitif.

- Dysgu'r 'Ymyriad 30 Eiliad' a rheoli'r plant mwyaf blin gyda llaw dda
- Lleihau nifer y 'Galwadau Brys' gyda'n prosiectau ymddygiad cynaliadwy a hyfforddiant hyfforddwyr
- Dysgu ymddygiad yn uniongyrchol, strategol a hyblyg

Cwricwlwm Pivotal ar gyfer Ymddygiad a Diogelwch – Hyfforddiant Hyfforddwyr

Arbenigwr ymddygiad ym mhob ysgol

Mae'r rhaglen hon yn ein galluogi i hyfforddi un neu fwy o aelodau staff i fod yn Hyfforddwyr Pivotal Trwyddedig. Gall yr Hyfforddwyr hyn wedyn redeg gynifer ag y dymunant o sesiynau hyfforddi rheoli a diogelu ymddygiad i'r staff eraill. Mae'r model yn un trwyadl ac oherwydd strwythur y deunyddiau nid oes gwanhad yn yr hyfforddiant. Rydym yn hyfforddi'r hyfforddwr yn ddwys ac yn eu cefnogi'n barhaus. Mae'r model yn gwbl hyblyg a chynaliadwy. Mae'n caniatáu i chi ddatblygu cysondeb ymarfer ar draws y staff cyfan a chynnal hyfforddiant fel y bo'r angen.

Gall yr hyfforddwyr gyflwyno rhaglen 25 awr i'r staff ac yna ail-gynnal sesiynau cyn amled ag y dymunant. Mae holl weithlyfrau'r Hyfforddwyr a'r Cynrychiolwyr ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r unedau i gyd ar gael ar-lein hefyd.

Eich Hyfforddwr fydd yr Hyrwyddwr Ymddygiad yn eich ysgol. Maent yn gyrru newid mewn ymddygiad ac yn cadw pawb ar y trywydd iawn. Rydym yn adeiladu gallu ac

arbenigedd ar eich tîm staff i'ch galluogi i gefnogi cydweithwyr pan fo'r angen ac i wreiddio'r hyfforddiant yn ymarfer dydd i ddydd yr ysgol.

Mae'r rheiny sy'n dymuno bod yn Hyfforddwyr Pivotal Trwyddedig yn mynychu un o'n cyrsiau hyfforddi 2 ddiwrnod. Yn ogystal â'r cwrs penwythnos, gwahoddir yr Hyfforddwyr i 'fynychu' 3 gweminar ar-lein y flwyddyn. Bydd yr hyfforddeion yn cael cymorth Uwch Hyfforddwyr Pivotal: mae'r ffi Hyfforddwr yn cynnwys 3 awr o e-fentora i'r Hyfforddwr eu defnyddio pan fo angen drwy gydol y flwyddyn.

Ysgrifennu Polisi: Mae'r polisi yn greiddiol i reoli ymddygiad ardderchog. Mae'n adlewyrchu'ch diwylliant, eich gwerthoedd a'ch ethos mewn ffyrdd na all polisïau eraill. Mae Pivotal yn gweithio gydag ysgolion i symleiddio polisïau ymddygiad fel eu bod yn ddogfennau gweithio defnyddiol ac effeithiol sy'n ychwanegu gwerth at ymarfer. Gall polisi ymddygiad arbennig hoelio sylw pawb ar yr hyn sydd fwyaf pwysig, cefnogi staff pan eu bod fwyaf angen help, gyrru cyflawniad wrth i ni symud o ymddygiad at agweddau dysgu a gall gynnig y cysondeb a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen ar nifer o fyfyrwyr sy'n cael anhawster gyda'u hymddygiad. Mae Pivotal yn cynnig gwasanaeth ymgynghori ac ysgrifennu neu gyd-ysgrifennu polisi er mwyn sicrhau fod ysgolion a grwpiau o ysgolion yn integreiddio ymarfer ymddygiad o'r radd flaenaf yn eu polisïau gyda thechnegau a strategaethau sy'n grymuso staff ac yn amddiffyn dysgwyr.

Mae Pivotal Education yn cynnig adolygiadau polisi ymddygiad am ddim.

Anfonwch eich polisi ymddygiad atom a rhewch adborth o fewn 5 diwrnod.

Sylwer fod Pivotal yn cynnig ystod lawn o wasanaethau cefnogi ymddygaidd a hyfforddiant yn cynnwys hyfforddi, mentora, cyrsiau, ar-lein, podledliad wythnosol am ddim ac ymgynghoriaeth.